CYFRES C4

amserbeibl

Storïau o'r Beibl – Safon 1

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oed Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Lliwiwch y lluniau yn y storïau hyn o'r Efengylau

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

DARLLENWCH
Mathew 26: 14-16
a 36-50

Mae'r stori hon yn sôn am:
Iesu'n cael Ei fradychu

Stori 1 Stori'r Pasg – Jwdas

Roedd yr amser ar ddod pan fyddai'r Arglwydd Iesu yn cael ei ladd. Aeth Jwdas, un o'i ddisgyblion, at elynion Iesu. Addawodd Jwdas eu harwain i'r fan lle'r oedd Iesu, er mwyn i'r milwyr Ei arestio. Rhoddodd y prif offeiriaid 30 darn arian i Jwdas yn dâl am ei help.

Llanwch y llythrennau sydd ar goll.

R h o dd o dd y p __ __ f

o ff __ __ __ __ __ i d

a r i a n i J __ __ __ s.

Yn fuan wedi hyn, roedd Iesu'n gweddïo mewn gardd o'r enw Gethsemane. Wrth Iddo orffen gweddïo, cyrhaeddodd Jwdas gyda thyrfa o ddynion. Roedden nhw'n cario cleddyfau a phastynau. Aeth Jwdas at Iesu a rhoddodd gusan Iddo. Yna, dyma'r dyrfa yn cipio Iesu. Dihangodd y disgyblion oedd wedi bod gydag Iesu, a chafodd Iesu Ei arwain ymaith fel carcharor.

Lliwiwch y geiriau a'r lluniau.

Enw'r fan lle cafodd yr Arglwydd Iesu Ei arestio oedd

Gardd Gethsemane.



Enw _____

DARLLENWCH
Mathew 27: 1-2
a 11-31

Mae'r stori hon yn sôn am:
Iesu yn dioddef drosom ni.

Stori 2 Stori'r Pasg – Pilat

Ar ôl cael Ei arestio, rhoddwyd yr Arglwydd Iesu ar brawf gerbron Rhaglaw Rhufeinig o'r enw

Pontiws Pilat.

Lliwiwch y llythrennau.

Roedd Pilat yn teimlo'n siŵr nad oedd Iesu wedi gwneud dim o'i le, ac roedd yn awyddus i'w ryddhau Ef. Ond roedd yr Iddewon, serch hynny, am weld Barabbas, oedd yn garcharor poblogaidd iawn, yn cael ei ryddhau. Dyma nhw'n mynnu y dylai Iesu farw.

Gadawodd Pilat i'r Iddewon gael eu ffordd. Rhyddhawyd Barabbas, a dedfrydwyd Iesu i farw ar groesbren.

Cyn i Iesu gael Ei groeshoelio, bu'r milwyr yn greulon iawn Wrtho.



Gwnaethant hwyl am Ei ben drwy Ei wisgo mewn clogyn ysgarlad a dodi coron o ddrain am Ei ben. Buon nhw'n poeri Arno hefyd ac yn Ei daro cyn Ei hoelio ar groes.

Llanwch y llythrennau coll a lliwiwch y lluniau.

C l _ _ _ n y s _ _ _ _ a d.

C o _ _ n o dd _ _ _ n.

Mae'r Beibl yn dweud wrthym Iddo Ef farw ar y groes dros ein pechodau ni. Doedd dim un ffordd arall i ni gael maddeuant a'n paratoi ar gyfer y Nefoedd!

Enw

DARLLENWCH
Mathew 27: 57-66

Mae'r stori hon yn sôn am:
Iesu'n codi o'r bedd yn fyw.

Stori 3 Stori'r Pasg – Joseff

Bu'r Arglwydd Iesu farw ar y groes. Y noson honno, aeth dyn cyfoethog o'r enw Joseff at Pilat i ofyn am Ei gorff. Roedd e eisiau Ei gladdu. Gadawodd Pilat iddo gael corff Iesu.

Tanlinellwch y gair CYWIR.

Llewygodd / bu farw yr Arglwydd Iesu ar y groes.

Roedd Joseff yn ddyn **cyfoethog / tlawd.**

Roedd Joseff eisiau **claddu / llosgi** corff Iesu.



Cyn gynted ag y cafodd Joseff y corff, dyma fe'n ei lapio mewn lliain glân. Dododd gorff Iesu mewn bedd newydd oedd yn eiddo iddo.

Rholiwyd carreg fawr ar draws y fynedfa i'r bedd.

Lliwiwch y llun o Joseff wrth ymyl y bedd.

Dri diwrnod yn ddiweddarach, cododd yr Arglwydd Iesu o'r bedd yn fyw. Dim ond Duw Ei Hun allai wneud peth mor rhyfeddol! Heddiw, mae'r Arglwydd Iesu yn Waredwr byw. Mae Ef yn gallu achub pob un sy'n ymddiried ynddo Ef.

Lliwiwch y geiriau hyn o'r Beibl.

"Mae ef wedi Ei gyfodi!"

Enw

DARLLENWCH
Luc 24: 13-35

Mae'r stori hon yn sôn am:
Iesu'n fyw!

Stori 4 Stori'r Pasg – Y ddau deithiwr



Roedd dau o ddisgyblion Iesu yn cerdded o Jerwsalem i Emaus, pentref rhyw saith milltir i ffwrdd. Roedden nhw'n drist iawn am eu bod yn gwybod fod eu Meistr wedi marw. Doedden nhw ddim eto wedi clywed y newyddion da Amdano - Ei fod yn fyw unwaith eto.

Rhowch gylch o gwmpas yr atebion cywir.

Roedd y disgyblion yn cerdded o

Jerwsalem / Emaus / Bethlehem.

Roedd y disgyblion yn cerdded i

Bethlehem / Emaus / Jerwsalem.

Yn sydyn, dyma'r Arglwydd Iesu yn ymuno â nhw! Dechreuodd gerdded a siarad gyda nhw, ond doedden nhw ddim yn Ei adnabod! Gwahoddon nhw'r Dieithryn i aros gyda nhw. Aethant ati i baratoi bwyd, ac wrth iddyn nhw ddechrau bwyta, dyma nhw'n Ei adnabod! Yna, diflannodd Iesu.

O mor hapus oedden nhw! Roedden nhw'n hollol siŵr bod yr union Berson oedd wedi marw ar y groes nawr yn fyw! Aethant ar frys i Jerwsalem i ddweud wrth y disgyblion eraill.

Lliwiwch y geiriau.

"Bu farw Crist dros ein pechodau ni, cafodd ei gladdu, a'i atgyfodi."

Ydych chi wedi ymddiried Ynddo Ef i'ch achub rhag eich pechodau? Gwnaeth hyn i gyd er eich mwyn chi!

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120